



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg

1 Awst 2018 – 31 Gorffennaf 2019

**Wedi'i baratoi yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg
(Cymru) 2011**

**Neris Morris – Swyddog Iaith Gymraeg
Ionawr 2020**

Cynnwys:

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Cyfrifoldebau'r iaith Gymraeg**
- 3. Cydymffurfio â'r Safonau**
 - 3.1 Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth**
 - 3.2 Cydymffurfio â Safonau Llundio Polisi**
 - 3.3 Cydymffurfio â Safonau Gweithredol**
- 4. Cwynion**
 - 4.1 Cwynion sy'n ymwneud â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth**
 - 4.2 Cwynion sy'n ymwneud â Safonau Llundio Polisi**
 - 4.3 Cwynion sy'n ymwneud â Safonau Gweithredol**
- 5. Sgiliau'r Iaith Gymraeg ymysg Staff**
- 6. Hyfforddiant**
- 7. Recriwtio i Swyddi Gwag**
- 8. Manylion Cyswllt**

1. Cyflwyniad

Derbyniodd Coleg Gŵyr Abertawe ei Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol o Gomisiynydd y Gymraeg ym Mis Medi 2017. Amlinellwyd yr hysbysiad gyfrifoldeb y Coleg i fodloni 178 o Safonau Statudol y Gymraeg, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Gosodwyd y Safonau gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Diben y safonau yw:

- Sicrhau bod sefydliadau'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u disgwyliadau ynglŷn â'r Iaith Gymraeg
- Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol o'u hawliau ynglŷn â'r Iaith Gymraeg a bod eu disgwyliadau a'r gwasanaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu bodloni
- Sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn dod yn fwy cyson a chadarn, gan wella eu hansawdd, ar draws y sefydliadau

Mae'n ddyletswydd ar y Coleg i drin y Gymraeg yn hafal i'r Saesneg. Fel rhan o'r safonau, mae'n ofynnol i hybu a hwyluso'r defnydd cynyddol o'r Iaith Gymraeg, gan ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio a gwella eu sgiliau Cymraeg, yn y gwaith ac yn eu bywydau bob dydd.

Roedd yn ofynnol i'r Coleg (ar ddymuniad Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg) i gynhyrchu ei adroddiad blynyddol cyntaf erbyn Ionawr 31 2019. Roedd yr adroddiad cychwynnol hwn yn cwmpasu cyfnod 1 Ebrill 2018 i 31 Gorffennaf 2018, tra bydd yr adroddiadau dilynol yn cwmpasu cyfnod o flwyddyn, sef 1 Awst i 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys manylion am:

- sut mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi cydymffurfio â'r safonau gofynnol yr oedd gennym ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod cyfnod penodol o amser (fesul grŵp Safonau – Cyflenwi Gwasanaeth, Llundain Polisi, Gweithredol);
- nifer y cwynion a dderbyniwyd a'r ffordd yr ymdriniwyd â hwy (fesul grŵp Safonau – Cyflenwi Gwasanaeth, Llundain Polisi, Gweithredol);
- nifer y staff sydd â graddau gwahanol o Sgiliau Iaith Gymraeg, erbyn diwedd y cyfnod dan sylw (coladir ar gyfer cofnodion Safon 158);
- nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigir yn y Gymraeg yn y cyfnod dan sylw (coladir ar gyfer cofnodion Safon 159);
- canran o gyfanswm y staff a fynychodd cwrs hyfforddi cyfrwng Cymraeg dewisol (coladir ar gyfer cofnodion Safon 159);

- nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn a/neu laniard sy'n dynodi eu Sgiliau Iaith Gymraeg, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (coladir ar gyfer cofnodion Safon 160);
- nifer y swyddi gwag newydd a hysbysebwyd gan y Coleg yn ystod y cyfnod penodedig a'u categoriwyd yn ôl gofynion amrywiol Sgiliau'r Iaith Gymraeg (coladir ar gyfer cofnodion Safon 162)

2. Cyfrifoldebau'r Iaith Gymraeg

Mae'r cyfrifoldeb am fonitro a rheoli cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn rhan o gylch gwaith y Swyddog yr Iaith Gymraeg. Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg yn cael ei rheoli'n uniongyrchol gan y Pennaeth Cynorthwyol ac mae'r ddau yn cyfarfod bob pythefnos. Y Pennaeth Cynorthwyol a'r Pennaeth sydd yn bennaf gyfrifol am Safonau'r Gymraeg.

Swyddog yr Iaith Gymraeg sy'n gyfrifol am:

- Hyrwyddo'r Gymraeg a hysbysu dysgwyr a staff o bwysigrwydd yr iaith er mwyn hyrwyddo Cymru ddwyieithog y dyfodol
- Annog a chefnogi dysgwyr a staff i ddatblygu a gwella eu Sgiliau Gymraeg
- Creu cyfleoedd i ddysgwyr a'r staff cyfan i ymarfer, defnyddio a datblygu eu Sgiliau Gymraeg
- Monitro cydymffurfiaeth y Coleg â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg
- Hwyluso a hyrwyddo'r broses o normaleiddio'r Iaith Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd y Coleg

Yn ogystal â Swyddog yr Iaith Gymraeg, mae gan y Coleg Hyrwyddwr Dwyieithrwydd, sydd yn gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo darpariaeth gwricwlaidd ddwyieithog a Chymraeg.

Yn amlwg, mae cyfrifoldebau'r ddwy swydd yn croesi ar adegau. Mae'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd yn rheoli swyddi dau gyfieithydd amser llawn yn y Coleg yn ogystal â dwy rôl darlithydd 'Cymraeg fel Sgil Gyflogadwyedd' rhan amser.

Mae gan Swyddog yr Iaith Gymraeg (Neris Morris) a'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd (Anna Davies) gyfrifoldebau ar draws y chwech o gampysau'r Coleg.

Goruchwylir eu gwaith gan y Pennaeth Cynorthwyol, Kay Morgan. Cefnogir eu gwaith hefyd gan Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg, sy'n cynnwys rheolwyr o amrywiaeth o feysydd swyddogaethol a chwricwlaidd ar draws holl gampysau'r coleg. Mae'r grŵp yn cyfarfod 3 gwaith mewn blwyddyn academaidd, 1 cyfarfod bob tymor. Cadeirir y cyfarfodydd gan Bennaeth y Coleg, Mark Jones.

Rydym yn adolygu'n rolau yn barhaus ac yn adnewyddu'n strategaethau er mwyn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y Coleg, ac yn atgyfnerthu'r gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, yn benodol.

3. Cydymffurfio â'r Safonau

Disgwylir i bob Coleg Addysg Bellach yng Nghymru gydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg penodedig o fis Ebrill 2018 gyda chydymffurfiaeth lwyr â Hysbysiadau Cydymffurfio erbyn Hydref 2018. Er mwyn codi ymwybyddiaeth a dyletswydd y staff o Safonau'r Gymraeg, mae Swyddog yr Iaith Gymraeg wedi cyfarfod yn uniongyrchol â phob Rheolwr ardal Swyddogaethol ac wedi creu cyfres o ganllawiau i'r staff sy'n ymwneud â Safonau penodol. Cedwir y canllawiau yma ar borth staff newydd y Coleg, dan ddolen o'r enw "*Using Welsh at Work*". Mae cydymffurfio â'r safonau yn eitem reolaidd ar agendâu cyfarfodydd tîm ardaloedd swyddogaethol, yn ogystal â chyfarfodydd rheolwyr ardal dysgu. Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg wedi cynhyrchu dogfen werthuso a chynllunio gweithredau i'r ardaloedd swyddogaethol. Defnyddir y ddogfen wrth fesur lefel ac effeithlonrwydd y cydymffurfio, yn ogystal ag er mwyn trafod datblygiadau pellach.

3.1 Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg wedi datblygu Canllawiau a dosbarthwyd i'r staff. Cafwyd hefyd eu uwchlwytho i Borth y Staff o dan ddolen "*Using Welsh at Work*" er mwyn hysbysu'r defnyddwyr o ofynion Safonau Cyflenwi Gwasanaeth SIG (Safonau'r Gymraeg). Mae rhai wedi cael eu rhannu â staff mewn rolau penodol yn unig. Cynigir canllawiau ar:

- Ateb y ffôn a rheoli galwadau cyfrwng Cymraeg.
- Cyfatebiaeth
- Arddangosiadau o ddeunyddiau cyhoeddus mewn digwyddiadau/arddangosfeydd
- Dogfennau a Chyhoeddiadau
- Arwyddion Cyfarfodydd a Hysbysiadau
- Hyrwyddo gwasanaeth
- Troedynnau E-byst ac ymatebion awtomatig
- Gwasanaethau cyfieithu

Anogir staff sydd yn medru yn y Gymraeg i wisgo laniardiau a/neu fathodynau "Cymraeg yn y Gwaith", fel ffordd o noi eu bod yn siaradwyr neu'n ddysgwyr y Gymraeg. Mae cyswllt uniongyrchol eisoes wedi ei wneud gyda'r aelodau yma o staff, a derbyniwyd eu caniatâd i'w hadnabod yn ôl eu henwau, eu rolau a lleoliad eu campws. Gwneir hyn fel bod modd ymateb iddynt yn Gymraeg ar faterion sy'n ymwneud ag ymholiadau, phynciau a gwybodaeth am y gwasanaeth.

Er mwyn adnabod dysgwyr sydd yn meddu ar Sgiliau Iaith Gymraeg, gofynnir ffurflen gais y Coleg i ddysgwyr nodi:

- a. eu hiaith gyntaf
- b. os ydynt yn rhugl neu beidio, neu'n methu siarad Cymraeg o gwbl.
- c. a fyddent yn hoffi derbyn gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg
- d. a fyddent yn hoffi astudio yn ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg os/lle y bo modd
- e. eu cymhwyster Iaith Gymraeg orau

Coladir y wybodaeth yma a'i cedwir yn ganolog yn Swyddfeydd y Gyfadran, er mwyn sicrhau gohebiaeth Gymraeg/Dwyieithog dewisol ac er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer cymorth a darpariaeth cyfrwng Cymraeg (nad yw'n cynnwys gohebiaeth sy'n gysylltiedig â chynnwys cwrs, oni bai ei fod yn gwrs sydd ag elfen o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/Dwyieithog, gan nad yw hyn yn ofynnol yn ôl Safonau'r Iaith Gymraeg).

Mae'r holl ddogfennau cyffredinol sy'n ymwneud â'r Coleg yn cael eu darparu i'r dysgwyr ar ffurf ddwyieithog. Cymhaliwyd awdit gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â hyn ar dri achlysur yn ystod 2018-19, ac roedd bob ffurflen oedd yn rhan o'r awdit ar-gael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r gofyniad i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog, gan ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf. Maent hefyd yn gwybod sut i ddilyn y cyfarwyddid o gyfeirio siaradwr Cymraeg i gydweithiwr sy'n gallu cynnig gwasanaeth Gymraeg, os dymunir felly.

Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg wedi darparu hyfforddiant blaen-y-tŷ ac i aelodau allweddol eraill o staff y maes swyddogaethol, ar sut i weithredu'n ddwyieithog ar y ffôn. Bydd y Swyddog yn parhau i wneud hyn yn ystod sesiynau DPP y Coleg. Bwriedir cyflwyno gweithdrefn "Siopwr Cudd" gan y Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg yn ystod 2019-20.

Mae gwefan y Coleg ar gael yn y Gymraeg neu'n Saesneg. Cynhaliwyd awdit yn ymwneud â hyn gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar dri achlysur yn ystod 2018- 19 a dargafuwyd nad oedd rhai 'cardiau cwrs' ar gael yn Gymraeg ar y wefan, er i'r sefyllfa wella wrth l'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Mae gan y Coleg feddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg, a sicrhawyd bod y gwasanaeth hwn ar gael ar holl gyfrifiaduron y Coleg yn ystod 2019.

Mae'r Coleg wedi cynnig gwasanaeth gyfieithu ers amser hir, a gall y staff archebu cyfieithiad drwy ddilyn y ddolen "*Translation Manager*" sydd i'w gweld yn adran "*Using Welsh at Work*" ar Borth y Staff. Mae cyfieithu ar gael o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg, a darperir gwasanaeth prawf ddarllen, yn y ddwy iaith, gan gyfieithwyr y Coleg yn ogystal.

Mae dysgwyr yn cael gwybod am eu hawliau penodol sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg (e.e. yr hawl i dderbyn gohebiaeth Gymraeg, tystysgrifau Cymraeg, sesiynau cwnsela Cymraeg a thiwtor personol sy'n gallu siarad Cymraeg). Hysbysir yr wybodaeth yma ar wefan y Coleg ac yn y prospectynau Coleg, mewn Nosweithiau Agored and yn ystod y broses Ymrestru yn ogystal ag yn y cyfnod Anwytho. Mae'r Coleg yn gwneud defnydd o'r poster gan Swyddfa Comisynydd y Gymraeg, "Mae Gen Ti Hawl", i atgyfnerthu'r wybodaeth hon. Cynhaliwyd tri tiwtorial wythnosol cyfrwng Cymraeg neu dwyieithog gan diwtoriaid personol sy'n siaradwyr Cymraeg, yn ystod 2018-19. Gofynnodd tri myfyriwr am deitlau aseiniadau yn y Gymraeg. Cyflwynodd un myfyriwr waith ysgrifenedig yn Gymraeg, a mynychodd un myfyriwr wasanaeth cownsela cyfrwng-Cymraeg gan sefydliad 3ydd parti. Cyflwynir negeseuon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y Coleg yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd; cynhaliwyd awdit yn ymwneud â hyn gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar dri achlysur yn ystod 2018-19, lle nodwyd bod yr holl negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar gael yn y ddwy iaith.

Mae'r dysgwyr yn derbyn sesiynau anwytho sy'n cynnwys gwybodaeth am gymorth cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â gweithgareddau a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael iddynt yn ystod eu hamser yn y Coleg. Galluoga hyn felly i'r myfyrwyr ymarfer, datblygu a mwynhau eu Sgiliau iaith Gymraeg. Mae rhai sesiynau tiwtorial wedi'i neilltuo ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig, yn ogystal â rhoi gwybod i fyfyrwyr am wyliau a dathliadau Cymreig penodol. Datblygir ethos Gymreig gref a atgyfnerthir gan y gweithgareddau niferus a drefnir gan yr Hyrwyddwr Dwyieithrwydd trwy gydol y flwyddyn academiaidd.

Mae'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â thendrau yn adlewyrchu goblygiadau'r Coleg o dan Safonau'r iaith Gymraeg (Safonau 80-84).

3.2 Safonau Llunio Polisi

Cynhelir Asesiadau effeithiolrwydd cydraddoldeb ar bolisiau newydd ac ar rai sydd wedi'u hadolygu a'u diwygio, er mwyn sicrhau (ymysg materion cydraddoldeb eraill) bod;

- a. y Gymraeg yn cael ei thrin yn hafal â'r Saesneg, ym mhob agwedd o fywyd y Coleg
- b. cyfleoedd ar gael i staff, dysgwyr a chymdeithas ehangach y Coleg ddefnyddio'r Gymraeg
- c. gwneir bob ymdrech liannog mwy neu well defnydd o'r Gymraeg yng ngweithgareddau bob-dydd y Coleg.

Bydd canlyniadau'r Asesiadau effeithiolrwydd cydraddoldeb (a dogfennau ymgynghori perthnasol) yn cael eu hystyried yn unol â'r iaith Gymraeg. Yn dilyn hyn, caiff gwelliannau eu gwneud lle y bo'n briodol er mwyn bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg.

Mae Polisi Achwyn y Coleg yn adlewyrchu goblygiadau'r coleg o dan y Safonau iaith Gymraeg. Mae Swyddog y Gymraeg a'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd yn darparu sesiynau rhyngweithiol mewn diwrnodau Anwytho Staff Newydd, er mwyn hyrwyddo'r Safonau a'r cymorth sydd ar gael ar draws y Coleg sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Defnyddir y sesiynau hefyd er mwyn herio a darbwyllo pobl sydd yn meddu ar safbwyntiau ac agweddau ystrydebol tuag at yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd hefyd yn gallu cynnig sesiynau tiwtorial yn y dosbarth i ddysgwyr, gan ehangu ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Pwysleisir hefyd yn y sesiynau bod y Gymraeg yn sgil gyflogadwyedd defnyddiol.

3.3 Safonau Gweithredol

Mae'r Coleg wrthi'n datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, at bwrpas hyrwyddo a sicrhau defnydd o'r iaith. Mae'r polisi ar ffurf drafft ar hyn o bryd.

Gofynnir i bob cyflogai a hoffai gael gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae cyflogeion yn mynegi eu dewis iaith yn yr adran "All About Me" ar y Porth Staff. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan yr Adran Adnoddau Dynol ac mae'r ohebiaeth yn cael ei darparu yn ôl dewis yr unigolyn.

Mae'r tabl isod yn cofnodi'r ymatebion ar gyfer 2018-19:

Dymunaf dderbyn gohebiaeth wrth yr adran AD yn:

Gymraeg	6	0.5%
Saesneg	490	47%
Dim gwahaniaeth	17	1.5%
Heb ymateb	530	51%
	1043	100%

Bydd yr holl bolisiâu a gyhoeddir gan yr Adran Adnoddau Dynol sy'n ymwneud â recriwtio a chyflogaeth yn y Coleg ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r broses recriwtio ar gael yn ddwyieithog, gan gynnwys hysbysebion swyddi, swydd-ddisgrifiadau, manylbau person, a ffurflenni ymgeisio.

Mae polisiâu sy'n ymwneud â chwynion staff a gweithdrefnau disgyblu wedi cael eu hystyried o ran Safonau'r Gymraeg, ac mae darpariaeth wedi'i wneud i ganiatáu i staff ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r prosesau os oes angen, er bydd hyn drwy gyfieithu ar y pryd gan amlaf.

Mae gan y Coleg wybodaeth benodedig ar-lein ar gyfer gwasanaethau a darpariaeth iaith Gymraeg, sydd ar gael i'r holl staff ac mae'n cynnwys:

- Safonau'r Gymraeg
- Hysbysiad Cydymffurfio'r Coleg o Gomisiynydd y Gymraeg
- Adnoddau a dolenni i gyrsiau ar-lein i ddysgu Cymraeg
- Terminoleg ac adnoddau sy'n benodol i'r pwnc
- Gwybodaeth ac adnoddau am ddysgu seiliedig ar waith
- Dulliau dysgu dwyieithog

Mae unrhyw bolisiau sy'n dod o dan y Safonau wedi'i cyfieithu i'r Gymraeg ac maent ar gael ar Intranet Staff y Coleg. Mae polisiau sy'n berthnasol i fyfyrwyr neu'r cyhoedd ar gael ar wefan y Coleg.

Mae Gweithdrefn Achwyn y Coleg yn adlewyrchu gofynion y Safonau iaith Gymraeg mewn perthynas â Chwynion (Safonau 119-122). Mae meddalwedd ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg ("Cysgliad") ar gael ar holl gyfrifiaduron y Coleg. Mae holl aelodau'r staff wedi derbyn deurnyddiau canllaw i sicrhau defnydd o lofnodion e-bost dwyieithog a negeseuon allan-o'r-swyddfa sy'n ddwyieithog; gellir dod o hyd i'r canllawiau hyn yn yr adran "Defnyddio'r gymraeg yn y Gweithle" ar intranet y staff.

Bydd Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg yn cyflwyno'r ymarfer "siopwr cudd" yn ystod 2019-20 er mwyn monitro cydymffurfiaeth gyda'r disgwyliadau hyn.

Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn paratoi dogfen hunan-werthusiad a chynllunio a fydd yn cael ei chyflwyno ar draws holl feysydd-gweithredol y Coleg, ac a fydd yn arwain at drafodaethau pellach rhwng y Swyddog Iaith Gymraeg a Reolwyr unigol er mwyn sicrhau datblygiad pellach o ran gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y coleg.

Roedd 38 o aelodau staff wedi dechrau dosbarthiadau "Cymraeg Gwaith" yn ystod oriau coleg yn 2018-19 i ddatblygu eu sgiliau iaith a'u hyder ymhellach o ran defnyddio'r Gymraeg, ac roedd 33 o'r rhain wedi cymryd rhan am weddill y flwyddyn academaidd. Mae 61 aelod ychwanegol o staff wedi cofrestru ar y cwrs 10 awr ar-lein, tra bod 25 aelod o staff Cefnogi Busnes wedi mynychu gwersi dosbarthiadau Cymraeg i Ddechreuwyd a ddarperir gan Ganolfan Cymraeg-i-Oedolion Academi Hywel Teifi, sy'n rhan o Brifysgol Abertawe.

4. Cwynion

4.1 Cwynion yn ymwneud â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Ni chafwyd unrhyw gwynion

4.2 Cwynion yn ymwneud â Safonau Llunio Polisi

Derbyniwyd un cŵyn gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Mehefin 2019, mewn perthynas â'r polisi Coleg ar gostau trafnidiaeth i ac o'r coleg. Penderfynodd y Comisiynydd bod y gŵyn yn un ddilys, yn unol

ag adran 93 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; fodd bynnag, penderfynodd y Comisiynydd yn erbyn cwblhau ymchwiliad, ar y sail bod y polisi coleg oedd yn arwain ar hyn wedi'i greu yn 1982 a'i adolygu yn 2010, cyn dyddiad gosod y Safonau Llundain Polisi gan y Comisiynydd; ni ellir gosod Safonau Iaith Gymraeg ar drefniadau oedd mewn lle ymlaen-llaw.

4.3 Cwynion sy'n ymwneud â Safonau Gweithrediadol

Ni chafwyd unrhyw gwynion

Os bydd y Coleg yn derbyn unrhyw gwynion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg bydd yn delio â nhw yn yr un ffordd ag unrhyw gŵyn arall, gan ddefnyddio Gweithdrefn Gwyno'r Coleg. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn at y Pennaeth Cynorthwyol yn y lle cyntaf, a fydd yn sicrhau bod gweithdrefnau'r Coleg yn cael eu dilyn. Cedwir copïau o'r holl gwynion ysgrifenedig i'r Coleg.

5. Sgiliau Staff

Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw:

76 o siaradwyr Cymraeg rhugl - Lefel 3 neu 4 (7% o holl staff y Coleg)

67 o siaradwyr Cymraeg - Lefel 1 neu 2 (6% o holl staff y Coleg)

251 o siaradwyr Cymraeg - Lefel Mynediad (24% o holl staff y Coleg)

1 Awst 2018 – 31 Gorffennaf 2019

6. Hyfforddiant

Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn, a'r % o gyfanswm nifer y staff sy'n mynychu'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg:

- a. Recriwtio a Chyfweld
- b. Rheoli Perfformiad
- c. Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu
- d. Rhaglen Anwytho
- e. Delio â'r Cyhoedd
- f. Iechyd a Diogelwch

Dim ar gyfer: a,b,c,f.

Ar gyfer : d – Rhaglen Anwytho, mae'r holl staff newydd yn mynd i sesiwn "Iaith a Diwylliant Cymru" 45 munud a gyflwynir gan y Swyddog Iaith Gymraeg a'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd. Cyflwynir hyn trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, ond gyda rhywfaint o Gymraeg, yn dibynnu ar sgiliau ieithyddol y rhai sy'n bresennol.

Ar gyfer: e – Delio â'r Cyhoedd, mae'r Swyddog Iaith Gymraeg wedi cynnal sesiynau 'dwyieithog' pwrpasol ar gyfer rhai timau swyddogaethol er mwyn sicrhau arferion gorau o ran Safonau'r Gymraeg a Delio â'r Cyhoedd.

1 Awst 2018 – 31 Gorffennaf 2019

Nifer yr aelodau staff sy'n gwisgo bathodyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:

Mae'r holl aelodau staff yn cael gwybod am y bathodynnau a'r laniardiau i ddangos pwy sy'n siarad Cymraeg, ac mae'r rhain ar gael gan y Swyddog Iaith Gymraeg neu'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd. Mae'r Coleg yn annog y defnydd o'r rhain drwy'r adran "Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle" ar y Porth Staff ond, yn ôl Safon 178, nid oes gofyniad i adrodd ar niferoedd penodol.

1 Awst 2018 - 31 Gorffennaf 2019

7. Recriwtio i Swyddi Gwag

Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gennych rhwng 1 Awst 2018 a 31 Gorffennaf 2019 a gafodd eu categoraiddio yn ôl gofynion amrywiol o ran sgiliau Iaith Gymraeg:

Hysbysebodd y Coleg am gyfanswm o 173 swydd rhwng 1 Awst 2018 a 31 Gorffennaf 2019.

Ni apwyntiwyd ar 56 achlysur, gan adael 117 o benodiadau newydd.

Swyddi a hysbysebwyd fel Cymraeg Hanfodol:

	Hysbysebwyd fel:	Lefel sgil yn y Gymraeg gan yr un a benodwyd:
Rheolaethol	1 x L4	1 x L4
Dysgu ac Addysgu	2 x L4 1 x L3 6 x L1	2 x L4 1 x L2 1 x L3 2 x L1 2 x Mynediad 1 x dim Cymraeg
Cefnogi Busnes	4 x L4 1 x L3 1 x L2 1 x L1	3 x L4 1 x L1 1 x L4 1 x L4 1 x Mynediad

Swyddi a hysbysebwyd fel Cymraeg Delfrydol:

	Hysbysebwyd fel:	Lefel sgil yn y Gymraeg gan yr un a benodwyd:
Rheolaethol	1 x L4 4 x L2 5 x Mynediad	1 x dim Cymraeg 1 x L2 1 x L1-2 1 x Mynediad 1 x dim Cymraeg 1 x L4 2 x Mynediad 2 x dim Cymraeg
Dysgu ac Addysgu	2 x L4 9 x L3 1 x L1 29 x Mynediad	1 x L4 1 x Mynediad 1 x L4 1 x L3 1 x Mynediad 6 x dim Cymraeg 1 x L3 1 x L4 1 x L3 1 x L1-2 5 x L1 8 x Mynediad 14 x dim Cymraeg
Cefnogi Busnes	6 x L4 3 x L3 2 x L2 7 x L1 31 x Mynediad	1 x L1 1 x Mynediad 4 x dim Cymraeg 2 x Mynediad 1 x dim Cymraeg 2 x Mynediad 1 x L3 6 x dim Cymraeg 2 x L4 1 x L2-3 1 x L2 4 x L1 6 x Mynediad

1 Awst 2018 – 31 Gorffennaf 2019

8. Manylion Cyswllt

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am yr adroddiad hwn, cysylltwch â:

Neris Morris – Swyddog Iaith Gymraeg

Neris.Morris@gcs.ac.uk

01792 284216 neu 01792 890785